



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

## TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLI 427

**Amseru:** Unigol

**Teitl:** DPP2521 Gwasanaethau Fforensig Corfforol

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:** Cyllid

### **Crynodeb Gweithredol:**

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi bod yn heddlu sy'n lletya arweiniol ar gyfer Consortiwm y Gorllewin ac Arfordir y De, a oedd yn cynnwys 15 Heddlu mewn perthynas â phrynu gwasanaethau fforensig corfforol. Yn unol â'r Cyfeiriad Cenedlaethol ar gyfer Cydgyfeirio i System Brynu Ddynamig BlueLight Commercial, a gytunwyd yng nghyfarfod Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ym mis Rhagfyr 2024, mae holl aelodau Consortiwm y Gorllewin ac Arfordir y De wedi cymryd rhan mewn ymarfer tendr ar gyfer gwobrwyo cytundebau sy'n cychwyn ar 1 Ebrill 2026. Cydgyfeirir i un mecanwaith cytundebu er mwyn sefydlu sefydlogrwydd a chynaliadwyedd y Farchnad Fforensig sydd wedi bod yn destun problemau sylweddol a bregusrwydd.

Cynhaliwyd y tendr gan BlueLight Commercial drwy'r System Brynu Ddynamig ar gyfer Gwasanaethau Fforensig Corfforol.

### **Argymhelliad:**

Yr argymhelliad yw rhoi cytundebau ar gyfer Gwasanaethau Dadansoddol Fforensig i Key Forensics, Forensic Access a Cellmark.

Gyrrir cyfanswm gwerth y cytundeb yn flynyddol. Disgwylir mai £839,000 fydd y cytundeb ar gyfer y flwyddyn gyntaf, yn seiliedig ar alw hanesyddol ar gyfer Dyfed-Powys.

### **Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:**



**Dyddiad:** 03/12/2025